# Adolygiad Ofcom o orsafoedd radio newydd arfaethedig DAB+ y BBC a newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra

**Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau**

Cyhoeddwyd 21 Tachwedd 2024
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 5 Rhagfyr 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........ 3

2. Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ........ 4


## Atodiad


A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ........ 10

A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ........ 12

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ........ 13

A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad ........ 15

# 1. Trosolwg

## Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch – yn gryno

Ar ôl yr ymgynghoriadau ym mis Chwefror 2024 mae'r BBC wedi cynnal profion budd y cyhoedd ar gyfer pob un o'r canlynol:

- Pedair gorsaf radio cerddoriaeth DAB+ newydd arfaethedig, a fyddai'n cynnwys ail-lansio ffrwd bresennol Radio 1 Dance Sounds yn unig fel gorsaf radio ar DAB+ a thri estyniad DAB+ newydd i Radio 1, Radio 2 a Radio 3. Byddai'r gorsafoedd hefyd ar gael ar-lein drwy BBC Sounds, yn unol â dull gweithredu'r BBC ar gyfer ei orsafoedd radio cenedlaethol presennol.
- Ymestyn oriau darlledu gorsaf radio ran-amser bresennol y BBC, Radio 5 Sports Extra.

Mae Bwrdd y BBC wedi dod i'r casgliad bod y naill gynnig a'r llall yn diwallu'r profion budd y cyhoedd.

Mae Siarter a Chytundeb y BBC yn mynnu bod Ofcom yn archwilio unrhyw newidiadau "sylweddol" i'w wasanaethau y mae'r BBC wedi penderfynu eu bod yn diwallu'r prawf budd y cyhoedd ac mae'n dymuno eu rhoi ar waith. Ein tasg gychwynnol yw penderfynu a ydym hefyd yn ystyried bod y newidiadau perthnasol yn sylweddol ac, os felly, pa fath o asesiad y byddwn yn ei gynnal.

Mae Siarter a Chytundeb y BBC yn darparu y bydd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus newydd bob amser yn 'sylweddol'. Rydym o'r farn y byddai lansio pedair gorsaf radio DAB+ newydd yn golygu creu gwasanaethau cyhoeddus newydd, ac felly rydym yn cynnig pennu bod hwn yn newid sylweddol.

Yn ei brawf budd y cyhoedd, mae'r BBC yn datgan bod y newid arfaethedig i Radio 5 Sports Extra o fod yn orsaf ran amser i fod yn orsaf oriau estynedig yn sylweddol, oherwydd natur y newid ac oherwydd mai dim ond un cystadleuydd sydd ym marchnad radio chwaraeon y DU, sef talkSPORT. Rydym yn cytuno â'r BBC ac felly'n cynnig pennu bod y newid hwn yn un sylweddol.

Rydym hefyd yn cydnabod bod y cynigion hyn yn codi nifer o faterion dadleuol a allai effeithio ar amrywiaeth o bartïon sydd â diddordeb. O'r herwydd, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen ag asesiad cystadleuaeth ail gam manylach ar gyfer y ddau gynnig yn hytrach nag Asesiad Byrrach.

Yn y ddogfen hon, rydym yn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar yr asesiad cychwynnol hwn ac yn gofyn am safbwyntiau cychwynnol er mwyn deall sut mae rhanddeiliaid yn ystyried y gallai lansio'r gorsafoedd DAB+ newydd a'r newidiadau i Radio 5 Sports Extra effeithio arnyn nhw os bydd y newidiadau'n bwrw ymlaen. Bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar ein casgliadau drafft ar gyfer y ddau gynnig cyn i ni ddod i benderfyniad terfynol.

Rydym yn croesawu ymatebion i'n cwestiynau yn Atodiad 4. Rhaid cyflwyno'r rhain erbyn **5 Rhagfyr 2024** fan bellaf.

Byddwn yn cwblhau ein hasesiad cychwynnol erbyn 19 Rhagfyr 2024. Byddwn yn rhoi gwybod i'r BBC am ein penderfyniad ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

# 2. Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

## Cefndir

### Asesu effaith newidiadau'r BBC ar gystadleuaeth

2.1 Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Gall y BBC edrych ar newid ei weithgareddau presennol neu geisio datblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd i gyflawni ei genhadaeth.

2.2 Gallai rhai newidiadau fod yn rhai bach, er enghraifft penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd am raglenni unigol neu eu hamserlen. Serch hynny, gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai rhai newidiadau y mae'n dymuno eu gwneud effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y sector cyfryngau ehangach.

2.3 Gallai'r effaith fod yn gadarnhaol drwy wella'r gwerth i'r cyhoedd a hybu cystadleuaeth drwy gynnig mwy o ddewis, ysgogi'r galw neu hyrwyddo arloesedd er budd dinasyddion a defnyddwyr yn y DU. Serch hynny, gall rhai newidiadau mae'r BBC yn eu cynnig niweidio cystadleuaeth, er enghraifft drwy atal trydydd partïon rhag buddsoddi, a fyddai yn y pen draw yn golygu canlyniadau negyddol i gynulleidfaoedd.[1] Oherwydd hyn, mae Siarter a Chytundeb y BBC, sy'n nodi cenhadaeth a dyletswyddau'r BBC, yn mynnu bod y BBC yn gyntaf ac wedyn Ofcom yn ystyried effeithiau newidiadau sylweddol i wasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth.

### Ein hadolygiad o asesiad perthnasedd y BBC ar ffrydiau BBC Sounds yn unig newydd

2.4 Ar 16 Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi penderfyniad am berthnasedd tair ffrwd BBC Sounds yn unig newydd arfaethedig. Fe wnaethom benderfynu nad oedd y ffrwd estyniad Radio 1 Sounds yn unig na'r ffrwd estyniad Radio 3 Sounds yn unig arfaethedig yn newidiadau 'sylweddol', ac y gallai'r BBC fwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer y ffrydiau hyn.[2] Fodd bynnag, daethom i'r casgliad bod ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig yn sylweddol ac fe wnaethom gyfarwyddo'r BBC i gynnal prawf budd y cyhoedd petai'n dymuno bwrw ymlaen ag ef. Yn dilyn hynny, rhoddodd y BBC y gorau i'w gynlluniau am ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig.

2.5 Roedd y BBC hefyd yn cynnig comisiynu rhywfaint o gynnwys gwreiddiol ar gyfer ei ffrwd Radio 1 Dance bresennol (a'r ffrwd bresennol ar BBC Sounds), nad oedd yn ystyried a oedd

[1] Gallai newidiadau'r BBC olygu bod cynulleidfaoedd yn troi eu cefnau ar ddarparwyr masnachol a bod hynny'n lleihau eu gallu nhw i gynhyrchu refeniw. Gallai hyn yn ei dro gyfyngu ar allu darparwyr masnachol i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, gan arwain at leihau'r dewis cyffredinol, yr ansawdd, a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU.

[2] Gweler paragraff 2.11 i weld diffiniad o newid 'sylweddol'. Cafodd Estyniad Radio 3 ac Estyniad Radio 1 eu lansio ar 4 ac 8 Tachwedd yn y drefn honno.

yn sylweddol. Fe wnaethom adolygu cynigion y BBC a chytuno nad oedd y newidiadau'n sylweddol.

2.6 Mae ein hadolygiad o asesiad perthnasedd y BBC ar ffrydiau BBC Sounds yn unig, sydd wedi'i nodi yma i roi cyd-destun, wedi dod i ben erbyn hyn. Mae'r broses reoleiddio sy'n ymwneud â gorsafoedd newydd DAB+ arfaethedig y BBC, sy'n destun y ddogfen hon, ar wahân i'n hadolygiad o asesiad perthnasedd y BBC.

## Profion budd y cyhoedd y BBC ar newidiadau sain pellach

2.7 Cyhoeddodd y BBC heddiw ganfyddiadau ei brofion budd y cyhoedd ar gyfer ei gynigion i lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth DAB+ newydd ac i ymestyn oriau darlledu'r orsaf bresennol Radio 5 Sports Extra. Rydym nawr yn cynnal ein hasesiad ein hunain o gynigion y BBC, sy'n cynnwys newidiadau'r BBC i radio sy'n cael ei ddarlledu (h.y. DAB+) ac ar-lein (h.y. BBC Sounds), i benderfynu a oes angen asesiad pellach ynghylch a oes cyfiawnhad dros y cynigion yng ngoleuni eu gwerth cyhoeddus posibl a'r effaith ar gystadleuaeth.

# Cynigion y BBC

2.8 Mae'r BBC yn cynnig lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd y mae'r BBC yn dweud a fydd yn gwella'r gwerth i bob cynulleidfa, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau (15 – 34) a chynulleidfaoedd C2DE sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC. Byddai'r rhain yn cael eu darlledu ar DAB+ a byddant hefyd ar gael ar-lein ar draws radio digidol, BBC Sounds a seinyddion clyfar. Dyma'r gwasanaethau newydd arfaethedig.

a) **Radio 1 Dance:** Mae hyn wedi bod yn ffrwd ar BBC Sounds ers mis Hydref 2020. Mae'r BBC yn bwriadu ail-lansio hwn fel gorsaf radio, gan dargedu cynulleidfaoedd iau. Byddai'r orsaf Radio 1 Dance arfaethedig yn cynnwys rhagor o gynnwys, a fyddai'n gomisiynau newydd ac amrywiaeth o genres dawns gan gynnwys cerddoriaeth *techno, breakbeat, drum & bass, trance, EDM, Afro House* ac *UK Funky*.

b) **Radio 1 Anthems:** Mae'r BBC yn datgan y byddai hyn yn chwarae "ystod ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf debyg", gyda chymysgedd tebyg o genres i Radio 1, gan gynnwys pop clasurol, roc, rap, R a B, dawns a thraciau annibynnol o'r ddau ddegawd diwethaf. Byddai'r orsaf arfaethedig yn canolbwyntio'n benodol ar gynulleidfaoedd iau.

c) **Estyniad Radio 2**: Dywed y BBC y byddai hyn yn darparu cerddoriaeth a chynnwys archif y BBC o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au, gydag oddeutu 60% o'r amserlen yn cael ei harwain gan siarad. Byddai hefyd yn cynnwys o leiaf 10 bwletin newyddion bob dydd, yn gydamserol â Radio 2. Byddai'r orsaf arfaethedig yn cael ei thargedu at gynulleidfaoedd 55 oed a hŷn. Mae'r BBC yn dweud ei fod yn sefydlu partneriaeth rhwng estyniad Radio 2 a gorsafoedd radio lleol a chenedlaethol y BBC i roi sylw i gerddoriaeth rhanbarthau penodol ledled y DU.

d) **Radio 3 Unwind**: Mae'r BBC yn dweud y byddai'r orsaf hon wedi'i hanelu at gynulleidfaoedd rhwng 35 a 54 oed, gan ddarparu cerddoriaeth glasurol i gefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, a chefnogi llesiant. Byddai'r rhan fwyaf o'r gerddoriaeth a ddarlledir ar yr orsaf arfaethedig wedi cael ei recordio dros y pum mlynedd diwethaf, a byddai'n cynnwys gweithiau cerddorfaol, unawdau piano, cerddoriaeth gorawl ysgafn, cerddoriaeth o'r repertoire minimalaidd a neoglasurol, a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig gan gerddorfeydd a chorau'r BBC. Byddai polisi cerddoriaeth yr orsaf arfaethedig yn cynnwys pwyslais ar gyfansoddwyr byw cyfoes, cyfansoddwyr o'r DU a pherfformwyr o Brydain.

2.9 Mae'r BBC yn dweud, os bydd cynigion y BBC ar gyfer y gorsafoedd DAB+ newydd hyn yn mynd rhagddynt, y byddai ffrydiau Sounds yn unig Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind yn cael eu "cynnwys yn y gorsafoedd llawn".

2.10 Mae'r BBC hefyd yn bwriadu **ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra**, sydd ar hyn o bryd yn estyniad rhan-amser i BBC Radio 5 Live sy'n cynnig darllediadau chwaraeon byw. O dan ei gynnig, byddai'r orsaf yn dod yn wasanaeth oriau estynedig, gan ddarlledu rhwng 9am a 7pm, gan ddarparu cynnwys heb fod yn fyw sy'n ymwneud â chwaraeon fel podlediadau chwaraeon yn y bylchau rhwng digwyddiadau chwaraeon byw. Mae'r BBC yn dweud nad yw'r cynigion yn golygu unrhyw gynnydd i wariant comisiynu'r BBC nac oriau darlledu chwaraeon byw. Dywed y byddai'r gwasanaeth yn parhau i dargedu cynulleidfa o 25 i 44 oed sydd â diddordeb yng nghynnwys chwaraeon y BBC.

## Proses y BBC

2.11 O dan delerau'r Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC asesu a yw unrhyw newid arfaethedig i'w wasanaeth cyhoeddus yn 'sylweddol'.[3] Mae newid sylweddol naill ai'n Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, neu'n "unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol."[4] Os bydd yn penderfynu bod newid yn 'sylweddol', mae'n rhaid i'r BBC gynnal asesiad pellach o'r enw prawf budd y cyhoedd a adolygir gan Fwrdd y BBC.[5]

2.12 Er mwyn cymeradwyo cynnig, rhaid i Fwrdd y BBC fod yn fodlon bod y prawf budd y cyhoedd wedi llwyddo i ddangos:

a) bod y cynnig arfaethedig yn cyfrannu at genhadaeth y BBC ac at hyrwyddo o leiaf un o'r dibenion cyhoeddus;
b) bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC yn effeithiol; a
c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.13 Os bydd Bwrdd y BBC yn fodlon, yna caiff y prawf budd y cyhoedd ei gyflwyno i Ofcom i ni ei adolygu.

## Rôl Ofcom

2.14 Os yw Bwrdd y BBC yn dod i'r casgliad bod Prawf Budd y Cyhoedd wedi'i fodloni, rhaid i Ofcom gynnal ei asesiad ei hun o'r cynigion cyn y gellir rhoi newid ar waith. Mae'r Cytundeb yn rhannu gwaith Ofcom yn ddau gam. Yn ystod y cam cychwynnol, y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn chwe wythnos, mae'n rhaid i Ofcom gadarnhau a yw cynnig y BBC yn sylweddol ac, os felly, penderfynu ar ffurf ein hasesiad yn ystod yr ail gam.

2.15 O dan delerau'r Cytundeb, rhaid i'n hasesiad fod ar ffurf un ai Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu Asesiad Byrrach. Yn ein Canllawiau Asesiad Cystadleuaeth, rydym yn egluro:

[3] Y Cytundeb, Cymal 7.
[4] Y Cytundeb, Cymal 7(7)(a)a(b).
[5] Y Cytundeb, Cymal 8.

a) mae Asesiad Cystadleuaeth y BBC yn fwy tebygol o fod yn briodol “pan fydd cynnig yn codi materion mawr, cymhleth a/neu arbennig o ddadleuol, a allai gynnwys nifer o bartïon sydd â diddordeb a ffyrdd lle gallai fod effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol”; ond,
b) mae Asesiad Byrrach yn debygol os “oes ystod lai o faterion i’w hystyried,” er enghraifft pan fyddwn yn ystyried bod prawf budd y cyhoedd y BBC “yn rhoi sylw digonol i’r holl faterion (neu’r rhan fwyaf)”.

2.16 Mewn Asesiad Cystadleuaeth, bydd ein gwaith yn cynnwys:

a) adolygiad o’r gweithdrefnau mae’r BBC wedi’u dilyn wrth gyflawni ei brawf budd y cyhoedd;
b) adolygiad o asesiad y BBC o werth cyhoeddus, gan brofi dadansoddiad y BBC a’r ystod o dystiolaeth roedd wedi dibynnu arni i ddangos gwerth cyhoeddus ychwanegol y cynnig sy’n fwy na’i wasanaethau presennol;
c) ein hasesiad ein hunain ynghylch a fyddai’r newidiadau a fyddai’n deillio o gynnig y BBC yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, casglu tystiolaeth ychwanegol ac ystyried materion sydd wedi cael eu codi gan randdeiliaid eraill fel sy’n briodol; ac
d) asesiad terfynol ynghylch, ar sail ffeithiau penodol yr achos ac ar ôl ystyried yr holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau perthnasol, a ydy gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.17 Ar ddiwedd y broses, byddwn yn dod i un o bedwar penderfyniad posibl:

a) mae'r BBC yn cael cyflawni’r cynnig ar y ffurf a gyflwynwyd i ni;
b) ni chaiff y BBC gyflawni’r cynnig;
c) caiff y cynnig fynd ymlaen, yn amodol ar unrhyw amodau neu addasiadau rydym yn eu mynnu; neu
d) bod yn rhaid i’r BBC ailystyried elfennau o’i brawf budd y cyhoedd neu ddilyn unrhyw weithdrefnau pellach sy’n briodol yn ein barn ni.

2.18 Byddwn bob amser yn ceisio cwblhau ein gwaith mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl. Rhaid i Ofcom gwblhau Asesiad Cystadleuaeth cyn pen chwe mis. Fel arall, gall Ofcom gwblhau Asesiad Byrrach, gan ystyried yr elfennau sy’n berthnasol i Asesiad Cystadleuaeth y BBC, ond gan ganolbwyntio ar set fwy penodol o faterion.[6] Gydag asesiadau byrrach, efallai byddwn ond yn dod i’r casgliad y caiff y BBC wneud newid arfaethedig, neu ailystyried ei brawf budd y cyhoedd, neu ddilyn unrhyw weithdrefnau pellach sy’n briodol yn ein barn ni.[7]

2.19 Yn y naill achos neu’r llall, byddwn ni’n ymgynghori â rhanddeiliaid cyn penderfynu’n derfynol a ydy gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol a allai ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

[6] Cymal 9(2) y Cytundeb: “Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod newid arfaethedig yn newid sylweddol, rhaid i Ofcom roi gwybod i’r BBC a bwrw ymlaen i wneud penderfyniad o dan gymal 11 ar ôl cynnal asesiad cystadleuaeth o dan gymal 10 neu asesiad byrrach (llai na 6 mis) sy’n ystyried elfennau cymal 10(3)(a) i (d)”.
[7] Cymal 11(2) y Cytundeb.

## Ein hasesiad cychwynnol o gynigion y BBC a'r gwahoddiad hwn am sylwadau

2.20 Rydym yn cynnig canfod bod y ddwy set o newidiadau yn sylweddol:

a) Mae'r Cytundeb yn datgan yn glir y bydd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU bob amser yn 'sylweddol'.[8] Mae'r BBC o'r farn yn ei ddatganiad prawf budd y cyhoedd y byddai lansio'r pedair gorsaf gerddoriaeth DAB+ newydd yn golygu creu gwasanaethau cyhoeddus newydd yn y DU. Rydym yn cytuno â'r BBC y byddai lansio pedair gorsaf radio DAB+ newydd yn golygu creu gwasanaethau cyhoeddus newydd yn y DU, ac felly rydym yn cynnig pennu bod hwn yn newid sylweddol.

b) Mae'r BBC yn dweud yn ei ddatganiad prawf budd y cyhoedd fod effaith bosibl y newid arfaethedig i Radio 5 Sports Extra ar y farchnad yn sylweddol, oherwydd natur y newid a'r effaith bosibl ar un cystadleuydd ym marchnad radio chwaraeon y DU, sef talkSPORT. Rydym yn cytuno â'r BBC ac felly'n cynnig penderfynu bod hwn yn newid sylweddol, o ystyried natur y newid, o fod yn orsaf ran-amser i fod yn orsaf oriau estynedig, a'r effaith bosibl ar y farchnad.

2.21 Rydym hefyd yn cydnabod bod y cynigion hyn yn codi nifer o faterion dadleuol a allai effeithio ar amrywiaeth o bartïon sydd â diddordeb. O'r herwydd, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen ag asesiad cystadleuaeth ail gam manylach ar gyfer y ddau gynnig yn hytrach nag Asesiad Byrrach.

2.22 Ac ystyried yr uchod, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y canlynol yn ein hasesiad cychwynnol:

a) penderfynu a ydy prawf budd y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth am ei gynigion er mwyn i ni allu cwblhau asesiad cystadleuaeth manylach yng ngham dau; ac os felly

b) sicrhau bod ein barn gychwynnol y dylem gynnal Asesiadau Cystadleuaeth neu Asesiadau Byrrach yn briodol; yn ogystal â

c) casglu gwybodaeth gan randdeiliaid am sut gallai cynigion y BBC effeithio arnyn nhw os byddan nhw'n bwrw ymlaen. Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a nodir yn Atodiad 4 isod. Mae croeso hefyd i ymatebwyr ddarparu unrhyw dystiolaeth arall a fyddai'n gallu cyfrannu at ein gwaith.[9]

2.23 Os byddwn yn penderfynu cynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu broses Asesiad Byrrach ddilynol, byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a gawn. Byddwn hefyd yn ystyried canfyddiadau ein hasesiad cychwynnol, ein dadansoddiad o gynigion y BBC ac unrhyw ymchwil i'r farchnad rydym yn penderfynu ei wneud.

## Y camau nesaf

2.24 Bydd cam nesaf ein proses yn dechrau ar neu cyn **19 Rhagfyr 2024**. Ar y cam hwn, byddwn yn:

[8] Cymal 7(7)(a) y Cytundeb.

[9] Fel y nodir yn ein Canllawiau Asesiad Cystadleuaeth y BBC, er na fyddwn yn cynnal unrhyw asesiad manwl ar hyn o bryd, byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth y gall rhanddeiliaid ei rhoi, fel ymchwil i'r farchnad neu asesiadau o'r effaith gystadleuol.

- cyhoeddi ein penderfyniadau am berthnasedd, a oes angen asesiad pellach felly ac a yw prawf budd y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn i ni allu cwblhau asesiadau cystadleuaeth manylach; ac
- amlinellu'r math o asesiadau pellach rydym yn bwriadu eu cynnal, naill ai'r Asesiad Cystadleuaeth y BBC neu'r Asesiadau Byrrach.

2.25 Bydd gennym **hyd at chwe mis** o ddechrau ein hasesiadau i gwblhau'r Asesiadau Cystadleuaeth neu'r Asesiadau Byrrach. Bydd amserlen a strwythur terfynol ein hasesiad yn dibynnu ar ba fath o asesiadau rydym yn dewis eu cynnal. Ni waeth a ydym yn cynnal Asesiadau Cystadleuaeth neu Asesiadau Byrrach, byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid am ein safbwyntiau dros dro cyn dod i'n penderfyniadau terfynol.

2.26 Mae manylion ychwanegol am y prosesau y gallen ni eu cynnal wedi'u nodi yn ein Harweiniad Asesiad Cystadleuaeth y BBC.[10]

## Ymatebion

2.27 Mae cwestiynau'r ymgynghoriad hwn yn Atodiad 4. Y dyddiad olaf i ymateb yw **5 Rhagfyr 2024**. Dylid anfon yr ymatebion i BBCaudioproposals@ofcom.org.uk.

[10] Tudalennau 20-21.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar **5 Rhagfyr 2024**.

A1.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/bbc/ofcom-review-of-bbcs-proposed-new-dab-radio-services-and-extending-the-hours-of-radio-5-sports-extra/. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at BBCaudioproposals@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A1.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.6 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A1.7 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.8 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori a nodi pa rai o gynigion y BBC y mae eich ymateb yn ymwneud â nhw. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A1.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i BBCaudioproposals@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr

eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A1.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.13 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A1.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau ynghylch a ydy profion budd y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn i ni allu cwblhau asesiadau cystadleuaeth manylach. Ar yr adeg honno byddwn hefyd yn amlinellu'r math o asesiadau pellach rydym yn bwriad eu cynnal. Ni waeth a ydym yn cynnal Asesiadau Cystadleuaeth neu Asesiadau Byrrach, byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid am ein safbwyntiau dros dro cyn dod i'n penderfyniadau terfynol.[11]

A1.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym wrth ein bodd o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.19 Os hoffech chi drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth: corporationsecretary@ofcom.org.uk.

---

Mae manylion ychwanegol am y prosesau y gallen ni eu cynnal ac amserlenni dangosol wedi'u nodi yn ein Harweiniad Asesiad Cystadleuaeth y BBC.[11]

# A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

> Dim ☐
> Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
> Ymateb cyfan ☐
> Sefydliad ☐
> Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y

byddai’n well gennych i ni beidio â chyhoeddi’ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A4.1 Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i ymateb i'r cwestiynau isod a darparu tystiolaeth ategol lle bo hynny'n bosibl. Mae'r cwestiynau'n delio â phrawf budd y cyhoedd y BBC sy'n ymwneud â'r bwriad i lansio pedair gorsaf gerddoriaeth DAB+ a phrawf budd y cyhoedd y BBC sy'n ymwneud â newidiadau arfaethedig i Radio 5 Sports Extra. Mae croeso i randdeiliaid ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r ddau brawf budd y cyhoedd gyda'i gilydd neu ar wahân, neu ddewis ymateb mewn perthynas ag un o'r profion budd y cyhoedd yn unig. Nodwch pa rai o gynigion y BBC y mae eich ymateb yn ymwneud â nhw.

A4.2 Yn benodol, ar gyfer Cwestiynau 5 a 6 isod, rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth / tystiolaeth sy'n bodoli eisoes sy'n cefnogi eich ymateb a disgrifiad o ba fath o wybodaeth / tystiolaeth ychwanegol y gallech ei darparu yn y dyfodol. Bydd rhagor o gyfleoedd i randdeiliaid ddarparu tystiolaeth sy'n ymwneud â'r cwestiynau hyn yng ngham nesaf y broses prawf budd y cyhoedd.

**Cwestiwn 1**: Rydym o'r farn bod lansio'r pedair gorsaf gerddoriaeth DAB+ ac ymestyn oriau darlledu BBC 5 Sports Extra yn newidiadau sylweddol. Os ydych chi'n anghytuno, rhowch eich rhesymau pam rydych chi'n credu nad ydy'r cynigion mae'r BBC wedi'u cyhoeddi yn sylweddol.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n meddwl bod y cynigion mae'r BBC wedi'u cyhoeddi yn glir o ran eu graddfa (o ran adnoddau ariannol ac o ran cyrhaeddiad a'r math o gynnwys) a'r amserlenni ar gyfer gweithredu? Os nad ydych chi, rhowch fanylion am y meysydd lle'r ydych chi'n meddwl bod angen bod yn fwy clir.

**Cwestiwn 3**: Oedd prosesau ymgynghori prawf budd y cyhoedd y BBC wedi rhoi digon o gyfle i chi gyflwyno eich safbwyntiau'n llawn? Os nad oedden nhw, rhowch fanylion.

**Cwestiwn 4**: Gan fod y ddau gynnig yn codi nifer o faterion dadleuol, rydym yn bwriadu cynnal Asesiad Cystadleuaeth BBC llawn ar gyfer y naill a'r llall. Os ydych chi'n anghytuno ac yn credu y dylai Ofcom gynnal Asesiadau Byrrach, esboniwch pam.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno ag asesiadau'r BBC yn ei brofion budd y cyhoedd am y gwerth cyhoeddus posibl a/neu effaith y cynigion ar y farchnad? A oes unrhyw ystyriaethau gwerth cyhoeddus a/neu gystadleuaeth ychwanegol nad yw'r BBC wedi'u nodi?

**Cwestiwn 6:** Ydy'r cynigion hyn yn arwain at unrhyw bryderon sylweddol o ran yr effaith ar y farchnad a allai effeithio ar eich gwasanaethau chi? Os felly, esboniwch sut byddai cynigion y BBC yn effeithio ar eich gwasanaethau os byddant yn bwrw ymlaen.

Dim ond crynodeb lefel uchel byr yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.